

# Strategaeth Cymorth Cynnar

**Partneriaeth Caerdydd**
Grŵp Llywio Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Cardiff
Caerdydd

## Gwneud atal yn fusnes i bawb

Mae Partneriaeth Caerdydd yn cynnwys sefydliadau sy'n cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau a phryderon pobl Caerdydd ac i gyflawni gweledigaeth ein dinas.

**Partneriaeth Caerdydd**
**Grŵp Llywio Atal ac Ymyrraeth Gynnar**

# Strategaeth Cymorth Cynnar

## RHAGAIR - MAE ATAL YN BERTHNASOL I BAWB

Mae'r strategaeth hon yn nodi dechrau pennod newydd a chyffrous yn natblygiad gwasanaethau i blant a theuluoedd y mae angen cymorth arnynt yng Nghaerdydd. Mae hyn yn wir ar sawl lefel.

**Diben Cyffredin - Ffocws ar Ganlyniadau**

Hwn yw’r tro cyntaf i Wasanaethau Cymdeithasol Plant Caerdydd droi eu cefnau ar ffocws cul ar swyddogaethau statudol gan ymuno â'u partneriaid statudol a thrydydd sector i ddatblygu strategaeth gydlynol sy'n canolbwyntio ar atal. Nod y strategaeth hon yw cyfuno sgiliau, adnoddau ac ymrwymiad pob gweithiwr proffesiynol mewn ffordd unol i gyflawni dau Ganlyniad allweddol.

Mae'n adlewyrchu partneriaeth wirioneddol lle nad oes yr un asiantaeth yn bwysicach na'r llall, ond lle mae pawb yn ymrwymedig i

- Leihau nifer y plant, pobl ifanc a theuluoedd y mae angen cymorth neu ymyriad 'adferol' arnynt.
- 'Lleihau'r bwlch' fel bod plant yn cyrraedd eu potensial.

**Tystiolaeth o 'Beth sy'n Gweithio?'**

Mae'r Cynllun Gweithredu sy'n gysylltiedig â'r strategaeth hon yn amlwg yn allweddol ac yn nodi amrywiaeth eang o fentrau i gefnogi plant a theuluoedd. Maent oll yn seiliedig ar dystiolaeth genedlaethol o'r hyn sy'n gweithio. Mae llawer yn wasanaethau sydd eisoes yn bodoli yng Nghaerdydd a all, o ganlyniad i'r strategaeth hon, gynyddu eu heffaith gan fod y strategaeth yn cysylltu eu sgiliau a'u hadnoddau ag eraill. Mae rhai yn fentrau hollol newydd yn seiliedig ar y datblygiadau diweddaraf mewn mannau eraill yn y DU, gan gynnwys Leeds (dinas yr ydym wedi llwyddo i sefydlu perthynas 'ddatblygu' gyda hi), Manceinion, Essex, Newcastle a Blackburn a Darwen. Rydyn ni wedi manteisio ar brofiad partneriaid trydydd sector cenedlaethol - Gweithredu dros

Blant, Barnardo's a'r NSPCC, a'u tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Mae'r holl fentrau wedi'u dylunio i helpu plant ar gam cynharaf eu bywyd pan all cymorth gael effaith ddwys, neu ar y cam cynharaf pan fydd anawsterau'n dod i'r amlwg - ar yr arwydd cyntaf o broblem benodol.

**Llai o Blant sy'n Derbyn Gofal**

Bydd cyflawni'r ymrwymiad hwn yn cael effaith sylweddol ar filoedd o blant dros y 5 mlynedd nesaf oherwydd golyga y bydd anghenion llai o blant yn cael eu diwallu drwy'r llys, y system Derbyn Gofal neu'r system cyfiawnder troseddol. Bydd mwy o blant yn gallu mwynhau bywyd teuluol yn eu cartrefi eu hunain.

**Dyfodol Cynaliadwy - Gwasanaethau Cost-effeithiol**

Bydd goblygiadau enfawr i asiantaethau a fydd yn gallu cynnal gwasanaethau'n well yn wyneb pwysau ariannol sylweddol ac hefyd yn gallu defnyddio mwy o'r adnoddau hynny yn fwy effeithiol o lawer er budd mwy o blant. Llai o symiau mawr yn cael eu gwario at nifer fach o blant â chanlyniadau cyffredinol gwael; mwy o symiau cost-effeithiol is yn cael eu gwario ar y boblogaeth ehangach o blant gan sicrhau canlyniadau gwell ar yr un pryd.

**Grymuso'r Gweithlu Plant - Mae Atal yn Berthnasol i Bawb**

Gallai drawsnewid bywydau gwaith cannoedd o weithwyr proffesiynol, y byddai'n well o lawer ganddynt weithio gyda theuluoedd i alluogi eu llwyddiant a gweld plant yn ffynnu yn eu cartrefi na threulio eu hamser mewn perthnasau gwrthwynebol yn defnyddio mesurau gorfodol. Bydd mwy o weithwyr proffesiynol yn gallu gweithio'n therapiwtig i helpu plant a theuluoedd i ddelio'n adeiladol â phwysau'r byd modern, yn hytrach na chanolbwyntio ar asesu a rheoli. Nod y strategaeth yw chwalu'r rhwystrau rhwng ymyriadau statudol o fewn ffiniau un neu ddwy asiantaeth ac atal sy'n digwydd yn rhywle arall. Rydyn ni i gyd yn gwybod bod dyletswydd ar bawb i ddiogelu, ond bellach mae angen i bawb sy'n gweithio gyda phlant sicrhau mai atal yw eu ffocws pennaf gan fod atal effeithiol yn gwneud plant yn fwy diogel. Mae hefyd yn eu gwneud yn fwy iach a chytbwys ac yn gwella eu gallu i ddysgu a datblygu. Mae atal yn berthnasol i bawb hefyd.

**Her Fawr Iawn**

Allaf i ddim meddwl am set fwy heriol o ddyheadau na'r rhai sydd wedi'u nodi yn y strategaeth hon. Mae eu manylion a'u gweithrediad yn hollbwysig. Ni fydd popeth yn gweithio - mae hynny'n anochel. Bydd rhai unigolion neu sefyllfaoedd yn gwrthsefyll unrhyw gymorth a geir. Bydd rhai yn cofleidio'r newid tra bydd eraill yn syrthio'n ôl i mewn i'r un hen ffyrdd, ond fel gweithwyr proffesiynol mae angen i ni fanteisio ar gryfder y sail dystiolaeth a bod yn hyderus fod 'atal yn gweithio' os ydyn ni am wneud gwahaniaeth go iawn. Rydyn ni'n gwybod bod yna wasanaethau sefydledig yng Nghaerdydd lle ceir tystiolaeth o lwyddiant trawsffurfiol. Nod y strategaeth hon yw ehangu'r llwyddiant hwnnw a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy gyfuno ein hymdrechion yn fwy effeithiol a sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yn canolbwyntio ar nod cyffredin - atal.

Datblygwyd y strategaeth hon yn sgîl gwaith caled Grŵp Llywio Atal ac Ymyrraeth Gynnar Partneriaeth Caerdydd. Fel Cadeirydd y Bwrdd Plant a Theuluoedd Agored i Niwed rwy'n ddiolchgar iawn i'r Grŵp Llywio a phawb a gyfrannodd yn uniongyrchol neu drwy ymgynghoriad. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu llawer o'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r hyn sy'n gweithio. Mae'n ein herio ni i 'Roi'r Teulu yn Gyntaf' ac ymateb i gryfderau a gallu yn hytrach na gwendidau a diffygion. Mae dylunio gwasanaethau yn unol â'r hanfodion hyn yn cynnig gwerthoedd sylfaenol a fydd yn allweddol i lwyddiant.

**Tony Young**
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant**
**Cadeirydd - Bwrdd y Rhaglen Plant a Theuluoedd Agored i Niwed**

## Cynnwys
## Tudalen


Cyflwyniad 6

Amcanion Strategol a Chanlyniadau Strategol 6

Cefndir 9

Negeseuon o Ymchwil 9

Mae Rhianta yn Allweddol 9

Rhoi'r Teulu yn Gyntaf 9

Cyd-destun Caerdydd: Demograffeg 11

Cyd-destun Caerdydd: Adborth gan Randdeiliaid 12

Cyd-destun Caerdydd: Adborth gan Rieni a Gofalwyr 14

Rhaglenni a Gwasanaethau Presennol 16

Grŵp Llywio Amlasiantaethol 16

Cymorth Cynnar 17

Dull Gweithredu 19

Egwyddorion Allweddol 20

Cynllun Gweithredu 21

Atodiadau:

A: Cynllun Gwaith Cryno 24

B: Sbectrwm Anghenion a Gwasanaethau 27

C: Cyd-destun Caerdydd 28

D: Llwybr Cymorth Cynnar 31

E: Llwybr Cynllunio ac Asesu Cymorth Cynnar 32

F: Yr Egwyddorion sy'n Sail i Ddatblygiad y

## Cyflwyniad

Mae gan y ddogfen hon ddwy swyddogaeth allweddol. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer sicrhau partneriaeth mewn perthynas â **chymorth cynnar** ac yn cynnig canllaw i bawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghaerdydd er mwyn gweithredu'r dull strategol yn llwyddiannus ledled Partneriaeth Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys athrawon, ymarferwyr iechyd ac ymarferwyr Trydydd Sector megis cymorth i deuluoedd, ymarferwyr blynyddoedd cynnar, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr chwarae a gweithwyr cymdeithasol.

Mae'n ymwneud â'r ffordd y gallwn ni i gyd gydweithio, rhannu gwybodaeth a rhoi'r plentyn a'i deulu yn gyntaf i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn brydlon ac yn briodol.

Mae'r amcanion a'r canlyniadau canlynol wrth wraidd y Strategaeth, sy'n ceisio sicrhau bod atal yn berthnasol i bawb:

**Amcan Strategol 1**

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael help ar y lefel fwyaf sylfaenol neu ymyriad sy'n ddiogel ac effeithiol o ran hyrwyddo canlyniadau da.

**Amcan Strategol 2**

- Sicrhau bod Gwasanaethau (Cymdeithasol) Plant yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy wella effeithiolrwydd ymyriadau gwaith cymdeithasol a chymorth teuluol arbenigol / a dargedir.

Nodir camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r gofynion a nodir yn y ddau amcan allweddol uchod yn y cynllun gwaith cryno arfaethedig yn **Atodiad A.** Disgwylir i'r camau gweithredu hyn gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau strategol canlynol.

**Amcan Strategol 1**

- Lleihau nifer y plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd angen cymorth ar ben "adferol" continwwm cymorth teuluol Caerdydd (h.y. gwasanaethau statudol). Gweler **Atodiad B** - *Sbectrwm Anghenion a Gwasanaethau* am fanylion.

**Amcan Strategol 2**

- Lleihau'r bylchau i blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn perygl o ganlyniadau gwael yng Nghaerdydd.

Bwriad y dull gweithredu hwn yw bod o fudd i bob plentyn a pherson ifanc, beth bynnag fo'i anghenion, ac felly mae'n cynnwys plant ag anabledd.

Arweiniodd marwolaeth Victoria Climbie yn Chwefror 2000 at adolygiad mawr a thrylwyr o wasanaethau amddiffyn plant yn y DU, a arweiniwyd gan yr Arglwydd Laming. Amlygodd bwysigrwydd gwaith amlasiantaeth a rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant a'u hatal rhag dod i niwed. O ganlyniad, cafwyd nifer o ddiwygiadau fel yr argymhellwyd mewn amryw gyhoeddiadau a deddfwriaeth a ddiweddarwyd. Daeth sefydliadau, rhai a dalwyd a rhai di-dâl, at ei gilydd i gydweithio mwy i sicrhau agenda ataliol ac ymyrraeth gynnar.

Rhannwn oll yn y cyfrifoldeb dros ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae gweithio gydag asiantaethau eraill yn effeithiol iawn wrth wella canlyniadau i blant oherwydd themâu cyffredin y gall sefydliadau gydweithio arnynt. Drwy ddod ynghyd i rannu gwybodaeth a chodi pryderon gallwn wella'r tebygolrwydd o amddiffyn plant rhag niwed a hyrwyddo eu lles fel bod yn rhaid i lai o blant wynebu amgylchiadau erchyll Victoria Climbie.

Yng Nghaerdydd credwn y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd ei botensial. Rydyn ni'n cydnabod bod plant yn cyflawni'r canlyniadau gorau pan gânt eu cefnogi i dyfu a chyflawni o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau eu hunain, oherwydd mae teuluoedd yn deall eu plant.

Felly, mae ymrwymiad i **gymorth cynnar** yn elfen allweddol o'n dull o gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghaerdydd. Mae ein dull o gefnogi plant a theuluoedd yng Nghaerdydd, a amlinellir yn y canllaw hwn, wedi'i ategu gan ymrwymiad i **gymorth cynnar** drwy amrywiaeth o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i ddatblygu ystod o wasanaethau hyblyg ac ymatebol sy'n diwallu anghenion newidiol plant, pobl ifanc a theuluoedd ein dinas. Rydyn ni'n cydnabod yr angen i symud ein ffocws i ffwrdd o reoli argyfyngau byrdymor ac at ymyrraeth effeithiol a chymorth cynharach i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae hwn yn ddull gweithredu amlasiantaethol y mae'r egwyddorion canlynol yn sail iddo:

- Lle y bo'n bosibl, caiff anghenion pob plentyn a theulu eu diwallu mewn lleoliadau cyffredinol (e.e. y blynyddoedd cynnar, ymweliadau iechyd, ysgolion, meddygon teulu ac ati).

- Cyn gynted ag y bydd unrhyw ymarferydd yn gwybod bod gan blentyn unrhyw anghenion ychwanegol bydd yn siarad â'r plentyn a'i deulu ac yn cynnig cyngor a chymorth i ddiwallu'r anghenion hynny.

- Caiff teuluoedd eu grymuso i nodi eu problemau, eu hanghenion a'u datrysiadau eu hunain. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni chaiff canlyniadau ond eu gwella i blant drwy gefnogi a chynorthwyo rhieni/gofalwyr i wneud y newidiadau a nodwyd ganddyn nhw ac ymarferwyr.

- Byddwn yn gweithio gyda theuluoedd, yn hytrach nag "iddyn nhw", gan gynnig cymorth a gwasanaethau sy'n helpu teuluoedd i ddod o hyd i'w datrysiadau cynaliadwy eu hunain. Dulliau Adferol fydd y sbardunau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y fath fodd - dulliau sydd wedi'u gwerthuso a'u profi yn lleol ac yn genedlaethol gyda chanlyniadau cadarnhaol.

- Mae ymyriadau effeithiol yn ddibynnol ar y camau canlynol: **Gweld, asesu, cynllunio, gwneud ac adolygu.**

- Ar ôl gweld gwelliant, bydd gwasanaethau'n cael eu cwtogi neu eu dirwyn i ben er mwyn osgoi dibyniaeth.

- Ein nod yw datblygu cadernid plant a theuluoedd a'u gallu i oresgyn eu hanawsterau eu hunain am weddill eu bywydau.

Mae Partneriaeth Caerdydd yn ymrwymedig i weithio i gyflawni'r amcanion a nodir yn y Strategaeth hon. Mae holl aelod-asiantaethau'r Bwrdd Plant a Theuluoedd Agored i Niwed wedi cofrestru ar y Strategaeth a chaiff cynnydd o ran ei gweithredu ei fonitro'n ofalus gan y Bwrdd.

Disgwylir i'r Strategaeth gael ei lansio ym mis Medi 2015 pan ofynnir i asiantaethau partner ehangach ddatgan eu cefnogaeth i sicrhau bod teuluoedd yng Nghaerdydd yn cael yr help sydd ei angen arnynt ar yr adeg briodol. Cydnabyddir y bydd hi'n heriol darparu'r lefel gywir o gymorth ar yr amser cywir, lle bynnag y mae teuluoedd yn byw yng Nghaerdydd, ond gyda chymorth ac ymrwymiad partneriaid credwn y byddwn yn symud yn agosach at y nod hwn dros y tair blynedd nesaf wrth i'r Strategaeth Cymorth Cynnar gael ei sefydlu yn ein harfer.

## Cefndir

Mae'r diddordeb cynyddol mewn atal ac Ymyrraeth Gynnar yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth eang ei bod hi'n well nodi problemau'n gynnar ac ymyrryd yn effeithiol i'w hatal rhag gwaethygu nag ymateb pan fo'r broblem wedi mynd mor ddifrifol nes bod yn rhaid gweithredu. Mae'n well i'r unigolion dan sylw, eu teuluoedd a'r gymdeithas yn ehangach; mae'n osgoi llawer o ddioddefaint personol, yn lleihau problemau cymdeithasol ac, yn gyffredinol, yn costio llai na chamau adferol.

## Negeseuon o Ymchwil

Y neges amlycaf sy'n dod o'r ymchwil yw bod ymyrraeth gynnar yn gweithio - pan fo'r ymyrraeth yn briodol, yn cael ei defnyddio'n gywir ac yn mynd i'r afael â phroblem yn brydlon. Gorau po gyntaf y gweithredwch i sicrhau'r effaith fwyaf posibl a chynaliadwyedd hirdymor (mor gynnar â phosib ym mywyd y plentyn a/neu cyn gynted â phosib ar ôl i'r broblem ymddangos). Dros y blynyddoedd diwethaf mae newid wedi bod mewn polisi sydd bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar gefnogi oedolion yn eu rôl rianta.

## Mae Rhianta yn Allweddol

Rhieni yw'r dylanwad pennaf ar blant ac mae rhianta'n cael effaith sylweddol ar eu dyfodol, felly mae'n bwysig perswadio rhieni o'r gwahaniaeth y gall ymgysylltu â datblygiad eu plentyn ei wneud, ac i adeiladu'n gadarnhaol ar ei gryfderau a'i gynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau.

Mae angen rhyw fath o gymorth ar y rhan fwyaf o rieni, a gwyddwn o'n profiad lleol, yn ogystal ag ymchwil cenedlaethol, fod cymorth rhianta effeithiol yn helpu i wella rhianta. Rydyn ni hefyd yn gwybod nad yw anfantais yn rhwystro rhianta da ond bod lefelau isel o lythrennedd, rhifedd a hyder yn peri rhwystr, a bod hunan-barch yn cyfrannu at ysgogiad rhieni i newid - felly mae'n hi'n arbennig o bwysig perswadio rhieni o'r fath i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth drwy eu hargyhoeddi y gallant ddod â budd gwirioneddol a pharhaus i'w plant.

## Rhoi'r Teulu yn Gyntaf

Mae gan rai rhieni eu hanghenion ychwanegol eu hunain sy'n effeithio ar eu gallu i ddiwallu anghenion eu plant. Bydd gwasanaethau llwyddiannus i deuluoedd sydd â rhiant ag anghenion ychwanegol, megis problem iechyd meddwl neu anabledd dysgu, yn:

- rhoi hwb i gadernid a lles y teulu cyfan, nawr ac yn y dyfodol
- cynnig cymorth priodol i osgoi argyfyngau neu eu rheoli'n effeithiol os byddant yn codi
- sicrhau diogelwch plant.

Mae'r dull gweithredu Rhoi'r Teulu yn Gyntaf felly yn annog datblygiad gwasanaethau sy'n:

- cynnig drws agored i mewn i system o gymorth cydlynol ar bob pwynt mynediad
- edrych ar y teulu cyfan ac yn cydlynu gofal
- cynnig cymorth sydd wedi'i deilwra i anghenion
- adeiladu ar gryfderau'r teulu.

## Cyd-destun Caerdydd: Demograffeg

Mae Caerdydd yn ddinas o 350,000 o bobl sydd ynghanol Ardal Drefol ehangach Caerdydd yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae Caerdydd yn cynnwys ardaloedd o gyfoeth sylweddol yng ngogledd y ddinas ac ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol dwys a hirsefydlog, yn bennaf o amgylch yr ardal a elwir yr "Arc Ddeheuol". Fodd bynnag, ceir pocedi o amddifadedd cudd mewn ardaloedd llai difreintedig hefyd. Fel dinas fwyaf Cymru, gyda phoblogaeth amrywiol, mae'n haws ei chymharu â dinasoedd eraill ledled y DU gan gynnwys Sheffield, Manceinion a Newcastle.

Er bod poblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) Caerdydd, sef 84 fesul 10,000 o blant, yn is na chyfartaledd Cymru o 91, mae'n uwch na nifer o ddinasoedd cymharol yn y DU fel Sheffield, sydd â 47 fesul 10,000, a Bryste, sydd â 77 fesul 10,000.

Ar ddiwedd 2014 roedd gan Gaerdydd 1576 o Blant Mewn Angen, 297 o blant yn destun cynllun diogelu plant a 651 PDG. Yn hanesyddol, mae cyfradd PDG Caerdydd wedi aros yn gymharol gyson dros amser. Mae'r duedd yn awgrymu, yn y dyfodol, y bydd y gyfradd PDG yn parhau'n gymharol sefydlog. O ystyried lefel yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae gan Gaerdydd gyfradd gymharol isel o Blant sy'n Derbyn Gofal.

Mae Caerdydd wedi gweld cynnydd mawr yn y gyfran o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sy'n ddifreintiedig iawn (h.y. yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru) ond, yn ddiddorol, lleihad mewn cymunedau cymharol ddifreintiedig (h.y. yn y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru). Dros y cyfnod hwn, mae'r gyfradd PDG yng Nghaerdydd wedi aros yn gymharol sefydlog. Mae'r data'n cyflwyno negeseuon cymysg ynghylch sut mae Caerdydd yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill. Yn y cyd-destun Cymreig, gallai'r niferoedd a'r cyfraddau yng Nghaerdydd fod yn is na'r disgwyl. Yn y cyd-destun Seisnig, mae niferoedd a chyfraddau Caerdydd yn gymharol debyg i eraill. Mae hyn yn atgyfnerthu canfyddiadau ymchwil arall, sef nad oes nifer neu gyfradd 'ddelfrydol' ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, nac ychwaith ddull 'gwyddonol' o nodi a yw niferoedd/cyfraddau'n 'rhy uchel' neu'n 'rhy isel'.

Ar ddiwedd mis Awst 2012, roedd bron chwarter (24.6%) plant Caerdydd yn byw mewn teuluoedd incwm isel, a oedd yn fwy na'r cyfrannau ar gyfer Cymru (20.8%) a'r DU (18.7%). Fodd bynnag, roedd y ffigur cyffredinol hwn o 24.6% yn amrywio o ddim ond 3.2% yn Rhiwbeina i fwy na dwy ran o bump (44.0%) yn Nhreláі, gydag 16 o 21 o adrannau etholiadol Caerdydd yn fwy na chyfran Cymru (20.8%). Wrth edrych ar ddosbarthiad plant o deuluoedd incwm isel fesul Ardal Cynnyrch Ehangach Is (ACEI), gwelir bod y lefelau uchaf yn bennaf yn Arc Ddeheuol y ddinas, yn

arbennig Trelái ac Adamsdown. Roedd mwy na hanner o'r plant yn byw mewn teuluoedd incwm isel mewn pump ACEI: Plasnewydd 4 (55.7%), Trelái 5 (55.2%), Pentwyn 3 (53.6%), Trelái 2 (51.0%) ac Adamsdown 2 (50.7%).

I grynhoi, mae Caerdydd yn ddinas o wahaniaethau mawr. Mewn rhai rhannau o'r ddinas mae nifer sylweddol o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn byw mewn tlodi cymharol. Rydyn ni'n gwybod o waith ymchwil bod tlodi'n effeithio ar iechyd corfforol a meddwl plant, cyfraddau damweiniau, cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd cymdeithasol. Mae magu plant mewn ardaloedd o amddifadedd yn creu straen ychwanegol i rieni a gofalwyr; pryderon ariannol a phryderon ynghylch diogelwch plant a godwyd amlaf pan gynhaliwyd ymchwil i lywio Strategaeth Cymorth i Deuluoedd 2008-11.

Mae **Atodiad C** yn cynnwys crynodeb o ddata demograffig allweddol, ffactorau economaidd-gymdeithasol a dangosyddion lles ychwanegol sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghaerdydd.

## Cyd-destun Caerdydd: Adborth gan Randdeiliaid

Ym mis Ebrill 2014 comisiynwyd Cordis Bright gan Gyngor Dinas Caerdydd i gynnal adolygiad o nifer y PDG yn ardal Caerdydd. Roedd yn canolbwyntio ar dair prif agwedd:

- effeithiolrwydd gwasanaethau o ran atal plant rhag gorfod derbyn gofal;
- effeithiolrwydd gwasanaethau o ran gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal; ac
- effeithiolrwydd gwasanaethau o ran adsefyflu plant sy'n gadael gofal. Roedd yr adolygiad yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid o'r tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor.

Ymgynghorwyd â nifer o randdeiliaid ar lefelau ymarferwyr a rheolwyr fel rhan o'r ymchwil hwn. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau statudol (h.y. Iechyd, Addysg a Gwasanaethau Plant), darparwyr Trydydd Sector gan gynnwys darparwyr Teuluoedd yn Gyntaf, a Dechrau'n Deg. Nododd y rhan fwyaf o randdeiliaid fod gwaith partneriaeth wedi dechrau gwella o fewn y Cyngor a rhwng y Cyngor ac asiantaethau eraill. Fodd bynnag, yn ystod gwaith maes cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol gan randdeiliaid fod gwaith partneriaeth yng Nghaerdydd yn dechrau o sylfaen isel.

Tybiwyd bod gwelliannau'n uniongyrchol gysylltiedig â newidiadau ar lefel uwch arweinwyr o fewn y Cyngor ond nododd rhai rhanddeiliaid fod y pwysau ariannol a oedd yn wynebu pob asiantaeth sy'n gweithio gyda theuluoedd yn dechrau annog pobl i feddwl am sut y gallai gwaith partneriaeth gwell gael effaith gadarnhaol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (e.e. dileu dyblygu, datblygu dulliau arfer cyffredin, rhannu adnoddau). Cododd rhanddeiliaid eraill bryderon y gallai pwysau ariannol cynyddol beryglu gwaith partneriaeth drwy leihau'r amser sydd gan unigolion
i'w fuddsoddi mewn gwaith partneriaeth ac annog sefydliadau i ganolbwyntio ar 'fusnes craidd' yn unig.

Cytunodd nifer o randdeiliaid fod diffyg amcan clir, cyffredin a rennir ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd (gan gynnwys y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd mwyaf difreintiedig) yn effeithio ar gwmpas a natur gwaith partneriaeth ledled Caerdydd. Tybiwyd bod y diffyg hwn o ran strategaeth glir neu amcanion a rennir yn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau, dyheadau a disgwyliadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno, ar y cyfan, nad oedd y sefyllfa'n gynaliadwy a bod angen mwy o waith partneriaeth.

Cafodd rhanddeiliaid eu siomi gan benderfyniadau a wnaed yn 2013/14 i ddatgomisiynu rhai gwasanaethau atal ac Ymyrraeth Gynnar. Nododd rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â Theuluoedd yn Gyntaf mai prin y gwelsent gysylltiad rhwng gwaith y rhaglen hon ac, er enghraifft, leihad yn nifer y PDG. Nododd nifer o randdeiliaid (ar lefelau ymarferwyr a rheolwyr) yr arferai uwch arweinwyr yn y Cyngor ystyried gofal cymdeithasol fel busnes craidd y gyfarwyddiaeth, gan ddiystyru atal ac Ymyrraeth Gynnar i raddau. O ganlyniad, tybiwyd bod graddfa a natur gwasanaethau atal ac Ymyrraeth Gynnar yn gymharol annatblygedig ac nid oedd yn ymddangos fel petaent yn ymestyn yn sylweddol y tu hwnt i wasanaethau a ariannwyd gan Deuluoedd yn Gyntaf.

Fodd bynnag, pwysleisiodd nifer fawr o randdeiliaid bwysigrwydd atal ac Ymyrraeth Gynnar a'u bod yn awyddus i hyn gael ei wella, a hynny'n sylweddol ac yn gyflym. Credent fod uwch arweinwyr newydd yn fwy ymrwymedig i'r agenda atal ac Ymyrraeth Gynnar.

I grynhoi, roedd rhanddeiliaid yn:

- cydnabod bod angen gwella'r berthynas rhwng gwasanaethau statudol a Theuluoedd yn Gyntaf ac, yn benodol, fod angen i'r protocol a'r prosesau ar gyfer camu i fyny (i wasanaethau statudol) a chamu i lawr (i Deuluoedd yn Gyntaf o wasanaethau statudol) gael eu nodi'n gliriach.

- poeni bod cymorth o ran atal ac Ymyrraeth Gynnar, pan fo ar gael, yn gyfyngedig o ran amser ac, mewn llawer o achosion, yn cael ei dynnu'n ôl yn rhy fuan.

- cydnabod bod y gallu i gamu i lawr o leoliadau arbenigol yn gyfyngedig. Yn arbennig, roedd gweithwyr cymdeithasol yn poeni ynghylch y diffyg gofalwyr maeth hyfforddedig, arbenigol a fyddai'n galluogi plant sy'n

- derbyn gofal i gamu i lawr i ddarpariaeth llai sefydliadol. Fel rhan o hyn, soniodd gweithwyr cymdeithasol fod rhai plant sy'n derbyn gofal yn 'sownd yn y system'.

- poeni'n fawr am y lefel o risg sy'n wynebu teuluoedd y tu allan i wasanaethau statudol. Nododd y rhanddeiliaid hyn, gan fod trothwyon a llwythi gwaith mor uchel, na fyddai nifer o deuluoedd a fyddai'n cael

budd o gymorth yn cael yr ymyriadau sydd eu hangen ar adeg briodol. O ganlyniad, mae'r teuluoedd hyn yn wynebu mwy o risg nag sy'n briodol.

- nodi bod diffyg gwasanaethau chymorth ar haenau is yn gwaethygu ymhellach y risg a wynebir gan deuluoedd. Nododd rhanddeiliaid fod hyn yn dueddol o arwain at benderfyniadau sy'n seiliedig ar reoli argyfyngau a digwyddiadau sylweddol. Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar natur yr ymyriadau a gynhelir gyda theuluoedd (h.y. tuedd i ddefnyddio gorchmynion argyfwng a lleoliadau allanol pan fo plentyn yn dechrau derbyn gofal). Hefyd, mewn rhai achosion, mae'n arwain at ddiystyru esgeulustod cronig, hirdymor.

- nodi bod asiantaethau eraill yn tueddu i dynnu'n ôl a/neu geisio osgoi risgiau i raddau helaethach unwaith i'r teulu gael ei dderbyn gan wasanaethau cymdeithasol statudol. Mewn sawl ffordd, roedd y rhanddeiliaid yn ystyried y ddwy duedd hon yn rhai rhyng-gysylltiedig.

Mewn gwirionedd, nid diffyg gwasanaethau a chymorth ar haenau is yw'r broblem, ond diffyg gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chydlyniad gwasanaethau sydd ar waith. Mae hyn yn cael ei waethygu ymhellach gan ddiffyg drws blaen amlwg ar gyfer cael mynediad i wasanaethau ataliol.

Fodd bynnag, ar y cyfan, cafwyd negeseuon cymysg gan randdeiliaid ynghylch natur a lefel yr ymrwymiad i atal ac Ymyrraeth Gynnar ledled Caerdydd. Rhoddodd rhanddeiliaid gryn bwys ar ddatblygiad Strategaeth Cymorth Cynnar sy'n cynnig cymorth parhaus i deuluoedd ac, yn benodol, sy'n nodi manylion ar gyfraniadau mentrau atal ac ymyrraeth gynnar.

## Cyd-destun Caerdydd: Adborth gan Rieni a Gofalwyr

Ymgysylltwyd â rhieni a gofalwyr i lywio datblygiad y Strategaeth Cymorth Cynnar drwy sgyrsiau â grwpiau rhianta sefydledig sy'n cwrdd yn rheolaidd ar draws y ddinas. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau o rieni'n mynd i'r afael â rhaglenni yn seiliedig ar dystiolaeth, a rhieni a gofalwyr yn cwrdd ar sail diddordeb arbennig (e.e. rhieni plant anabl) neu oherwydd eu hamgylchiadau penodol (e.e. rhieni ifanc).

Mae'r negeseuon allweddol a godwyd gan rieni a gofalwyr fel rhan o'r broses ymgynghori fel a ganlyn:

- Mae'n anodd cael gafael ar wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Tra bod rhai rhieni yn defnyddio'r rhyngrwyd, nid oedd hi bob amser yn rhwydd dod o hyd i'r wybodaeth yr oeddent yn edrych amdani. Nid oes gan lawer o rieni / gofalwyr fynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref na digon o amser i fynd i leoliadau cymunedol fel Hybiau neu Lyfrgelloedd i ddefnyddio cyfleusterau rhyngrwyd cyhoeddus.
- Dywedodd y rhan fwyaf o rieni / gofalwyr yr ymgynghorwyd â nhw fod yn well ganddynt gael gwybodaeth am wasanaethau drwy daflenni gwybodaeth sy'n cael eu dosbarthu i'w cartref. Mae'r wybodaeth yn

fwyaf defnyddiol pan fo'n nodi'n glir pwy all ddefnyddio gwasanaethau, a lle a phryd mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig.

- Dywedodd y rhieni y cyfwelwyd â nhw, ar y cyfan, fod yn well ganddynt gael gwasanaethau mewn canolfannau yn eu cymuned leol. Os oes yn rhaid iddynt fynd y tu allan i'w cymuned leol byddai'n well ganddynt gael mynediad i rywbeth yng nghanol Caerdydd yn hytrach na gorfod teithio i rannau eraill o'r ddinas.
- Dywedodd llawer o rieni / gofalwyr ei bod hi'n rhwystredig cael eu dargyfeirio i beiriant ateb ar ôl iddynt fagu'r hyder i godi'r ffôn a ffonio gwasanaethau sydd i fod ar agor. Felly, mae rhieni / gofalwyr o'r farn ei bod hi'n bwysig bod gwasanaethau'n ymatebol ac ar gael pan fo angen. Nid ydynt am adael neges; weithiau, ar ôl gadael neges, nid oes unrhyw un yn dychwelyd yr alwad felly nid oes gan lawer ohonynt ffydd y bydd sefydliadau yn eu ffonio'n ôl.
- Roedd y rhan fwyaf o rieni / gofalwyr yn dibynnu ar weithwyr proffesiynol fel Ymwelwyr Iechyd i roi gwybodaeth iddynt am wasanaethau a chymorth i'w cysylltu â gwasanaethau. Dywedodd pawb ei bod yn hanfodol fod gan weithwyr proffesiynol ddigon o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael oherwydd, yn aml, nhw yw'r bobl y mae rhieni / gofalwyr yn dibynnu arnynt am wybodaeth.
- Roedd y rhan fwyaf o rieni / gofalwyr o'r farn bod llwybr sengl at wasanaethau yn syniad da. Roedden nhw'n hoffi'r syniad o gael un broses asesu islaw'r Gwasanaethau Plant a fyddai'n gyfarwydd iddyn nhw. Roedden nhw'n hoffi'r ffaith y byddai hyn yn golygu na fyddai'n rhaid iddynt ailadrodd eu stori drosodd a thro i ddarparwyr gwasanaeth gwahanol ac y gallai'r asesiad gael ei gludo gyda nhw a chael ei ddiweddaru wrth i'w hanghenion newid.
- Roedden nhw'n hoffi'r syniad o gael gweithiwr arweiniol i gydlynu cymorth, ond yn poeni am yr hyn fyddai'n digwydd pan na fyddai'r unigolyn hwnnw yn y gwaith am gyfnod o amser. Hoffent i'r system gydnabod hyn a chynnig rhywun priodol i gyflenwi.
- Gwnaeth y rhieni / gofalwyr gydnabod ei bod hi'n cymryd llawer o hyder i godi'r ffôn i gael mynediad at wasanaeth neu alw draw mewn canolfan. Roedden nhw'n cydnabod na all rhai rhieni wneud hyn ac felly ei bod hi'n bwysig fod gwybodaeth yn eu cyrraedd ac y gallant ddefnyddio gwasanaethau yn eu cartref eu hunain os nad oes ganddynt yr hyder i fynychu grŵp.
- Roedd rhai rhieni / gofalwyr yn poeni bod rhai gwasanaethau ond ar gael i ddalgylchoedd / cymdogaethau penodol a bod bylchau mewn darpariaeth ar gyfer rhai ardaloedd o'r ddinas (er enghraifft, ardaloedd y tu allan i ffiniau Dechrau'n Deg). Roedden nhw'n credu y byddai dryswch ynglŷn â pha wasanaethau y gall rhai grwpiau o rieni / gofalwyr eu mynychu os na fyddai mynediad i wasanaethau'n cael ei esbonio ac yn cael cyhoeddusrwydd mewn ffordd sy'n hygyrch i bob rhiant / gofalwr, ac y gallai'r ansicrwydd hwn ddigalonni rhieni a'u hatal rhag chwilio am gyngor neu geisio defnyddio gwasanaethau yn y lle cyntaf.

## Rhaglenni a Gwasanaethau Presennol

Mae gan Gaerdydd amrywiaeth o wasanaethau cymorth i deuluoedd, y mae rhai'n cael eu darparu gan asiantaethau statudol ac eraill gan y Trydydd Sector. Mae nifer sylweddol o'r rhain yn cael eu hariannu drwy fentrau Llywodraeth Cymru fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd (GCID) a Chymunedau yn Gyntaf.

Mae pwysigrwydd asiantaethau'n gweithio mewn partneriaeth i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd wrth wraidd polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a GCID ac rydym wedi gweld newidiadau uniongyrchol mewn dulliau o ddatblygu a darparu gwasanaethau ar ffurf timau amlddisgyblaethol yn gweithio gyda phlant a theuluoedd a datblygiadau yn y ffordd y mae anghenion plant a'u teuluoedd yn cael eu hasesu (e.e. Fframwaith Cyd-asesu'r Teulu - FfCT).

## Grŵp Llywio Amlasiantaeth

Mae'r Grŵp Llywio Atal ac Ymyrraeth Gynnar ac Is-grŵp Rhyngwyneb y Tîm o Amgylch y Teulu (TAT) wedi datblygu'r strategaeth hon i hyrwyddo a hwyluso ymyrraeth gynnar, cyn gynted â phosibl, i fynd i'r afael â phroblemau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, neu gyda phoblogaeth sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddatblygu problemau. Nod gwaith y ddau grŵp oedd sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion ar y cyfle cyntaf, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell a gwasanaethau cost-effeithiol. Mae gwaith y Grŵp Llywio wedi adeiladu ar waith a wnaed yn flaenorol o fewn cyd-destun y Strategaeth Cymorth i Deuluoedd (SCiD), gan ystyried blaenoriaethau allweddol y SCiD a bodloni gofynion cyfredol sy'n deillio o fentrau Llywodraeth Cymru, fel Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a GCID.

Mae'r camau cyffredinol canlynol wedi bod yn sail i waith amlasiantaeth a osododd y sylfeini ar gyfer datblygu'r Strategaeth Cymorth Cynnar hon, a chaiff ei llwyddiant ei fesur yn erbyn datblygiad ac effeithiolrwydd y nodweddion canlynol:

- datblygu systemau lleol effeithiol i nodi teuluoedd agored i niwed a chydlynu cymorth gan amrywiaeth o asiantaethau.
- adolygu a dadansoddi ffyrdd presennol o weithio er mwyn atgyfnerthu a gwella trefniadau lleol ar gyfer cynllunio amlasiantaeth a rheoli risg.
- sefydlu mecanwaith ar gyfer mesur cyrhaeddiad yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt a monitro ac adolygu effaith.
- datblygu (dylunio a chomisiynu) gwaith ataliol a dargedir a gwasanaethau ymyrraeth gynnar gan ddefnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac i bwy.

## Cymorth Cynnar

Mae'r broses o ymgysylltu partneriaid yn y Grŵp Llywio wedi bod yn gadarnhaol ac mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu iaith gyffredin sy'n disgrifio cymorth ataliol fel "***Cymorth Cynnar***" gyda ffocws ar gymorth yn hytrach nag asesu. Mae'n hyrwyddo sgyrsiau cywir ar yr adeg gywir, rhwng y bobl gywir.

Mae'r gwaith wedi cofleidio'r syniad y gall cymorth cynnar ddigwydd unrhyw bryd ym mywyd plentyn neu berson ifanc a'i fod yn cynnwys ymyriadau cynnar mewn bywyd yn ogystal ag ymyriadau wrth i broblem ddechrau datblygu. Rydyn ni'n ceisio cynnig cymorth ar gam cynnar i helpu teuluoedd i ddatrys problemau neu leihau effaith problemau sydd eisoes wedi dod i'r amlwg.

Mae hefyd yn cydnabod mai dull gweithredu cydlynol ac amlddisgyblaeth sydd orau fel arfer ar gyfer plant y mae eu hanghenion a'u hamgylchiadau yn eu gwneud yn fwy agored i niwed, ac mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu ***Llwybr Cymorth Cynnar*** i gael mynediad i wasanaethau ynghyd â ***Phroses Asesu a Chynllunio Cymorth Cynnar*** gyda ***Gweithiwr Arweiniol*** i weithio'n agos gyda'r plentyn a'r teulu i sicrhau eu bod yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r dull gweithredu'n dibynnu ar amrywiaeth o *Wasanaethau a Dargedir* i gefnogi'r ymyriadau hyn (e.e. Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf). Mae'r dull yn cydnabod y caiff *Gwasanaethau Arbenigol* eu cynnig lle bo anghenion y plentyn mor ddwys nes bod angen ymyriad statudol a/neu arbenigol i'w gadw'n ddiogelu neu i sicrhau ei ddatblygiad parhaus. Mae'r *Llwybr Cymorth Cynnar* drafft yn **Atodiad D**, mae'r *Llwybr Asesu a Chynllunio Cymorth Cynnar* yn **Atodiad E** ac mae'r *Sbectrwm Anghenion a Gwasanaethau* yn **Atodiad B** er gwybodaeth.

Mae dull gweithredu cyffredin wedi'i ddylunio ar gyfer datblygu ***Cynlluniau Teulu*** ac mae
set o egwyddorion sy'n sail i ddatblygiad y ***Cynllun Teulu***
yn **Atodiad F**. Y bwriad yw y caiff ***Cynllun Teulu*** ei lunio gyda'r teulu drwy gydol y broses ymgysylltu ac asesu gychwynnol, gan ddwyn ynghyd wybodaeth o asesiadau sydd eisoes yn bodoli a gwneud synnwyr o'r rhyngweithio rhwng y ffactorau sy'n effeithio ar unigolion yn y teulu a'u heffaith ar y ffordd y mae'r teulu'n gweithredu. Gan y bydd yr asesiad yn seiliedig ar egwyddorion adferol, rhaid i ddatblygiad y Cynllun Teulu hefyd fod yn seiliedig ar egwyddorion adferol, gan nodi ac adeiladu ar gryfderau'r teulu.

Bydd y Grŵp Llywio Amlasiantaeth yn parhau â'i gynllun gwaith i gefnogi gweithrediad y Strategaeth Cymorth Cynnar hon dan arweiniad y Gwasanaethau Plant gyda chyfraniadau gan randdeiliaid allweddol sy'n ffurfio Partneriaeth Caerdydd.

### Buddsoddiad Gwasanaethau (Cymdeithasol) Plant mewn Cymorth i Deuluoedd

Mae'r Gwasanaethau Plant yn cynnig amrywiaeth o Wasanaethau Cymorth i Deuluoedd o fewn adran *Unioni* y *Sbectrwm Anghenion a Gwasanaethau* yn **Atodiad B**. Caiff y gwasanaethau hyn a ddarperir drwy'r Tîm Cymorth Integredig i Deuluoedd (TCID) a'r Gwasanaethau Ymyrraeth a Chymorth i Deuluoedd (GYChDau) eu cynnig lle bo anghenion y plentyn mor ddwys nes bod angen ymyriad statudol a/neu arbenigol i'w gadw'n ddiogel neu i sicrhau ei ddatblygiad parhaus.  Mae'r TCID yn cynnig gwasanaeth ymyrryd mewn argyfwng gan weithio gyda theuluoedd lle ceir pryderon difrifol ynghylch diogelwch plentyn yn gysylltiedig â chamddefnydd o sylweddau gan riant / gofalwr. Caiff GYChDau yn aml eu darparu fel rhan o ymyriad statudol, megis Cynllun Plant Mewn Angen neu Gynllun Amddiffyn Plant, gyda'r nod o:

- Atal enwau plant rhag cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu gefnogi teuluoedd i ddad-gofrestru plant y mae eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- Lleihau'r angen i blant gael eu rhoi mewn gofal cyhoeddus ac ail-uno teuluoedd lle bo plant wedi dechrau Derbyn Gofal a lle mai'r bwriad yw dychwelyd adref.
- Atal yr angen am ymyrraeth gyfreithiol (e.e. Achosion Gofal).

Er mwyn atgyfnerthu'r dull gweithredu Cymorth Cynnar ar draws y Bartneriaeth mae angen sicrhau cynnydd prydlon yn erbyn y tasgau allweddol sydd angen eu cyflawni i weithredu'r Strategaeth Cymorth Cynnar yn llwyddiannus fel y nodir yn y **Cynllun Gwaith Cryno** yn **Atodiad A** a'r **Cynllun Gweithredu** sy'n dod gyda'r Strategaeth hon**.** Mae'r Gwasanaethau Plant wedi ad-drefnu cyllid cyfredol i greu dwy swydd bwrpasol a fydd yn gyfrifol am ddatblygu elfennau allweddol o'r Strategaeth Cymorth Cynnar.

- **Atal a Phartneriaethau - Rheolwr Project Gwella** i arwain datblygiad Strategaeth Cymorth Cynnar Caerdydd, gan hyrwyddo arfer gorau wrth ddarparu Gwasanaethau Cymorth Cynnar ledled Caerdydd a hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol mewn Darpariaeth Cymorth Cynnar.
- **Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol - Rheolwr Project Gwella** i arwain y gwaith o ailfodelu a gweithredu'r Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol i ddiwallu anghenion newidiol a hyrwyddo dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau. Bydd y swydd yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad hyb Diogelu Amlasiantaethol, yn hyrwyddo arfer gorau wrth ddarparu Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol Plant ledled Caerdydd ac yn hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol wrth ddarparu'r model arfer newydd.

Hefyd, bydd y broses o ail-alinio dyletswyddau **Rheolwr y Gwasanaeth Ymyrraeth a Chymorth i Deuluoedd (GYChD)** yn creu capasiti ychwanegol i gynnig arweiniad strategol ar gyfer ail-alinio gwasanaethau ataliol y Gwasanaethau Plant a gweithredu'r Strategaeth Ataliol mewn perthynas ag ymestyn ymyriadau a dargedir.

Yn olaf, mae mwy o adnoddau wedi'u sicrhau drwy Gyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i lywio'r

rhaglen newid trawsffurfiol y cytunwyd arni ar gyfer gwaith integredig ledled Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd y Brifysgol, gan gymryd cyfrifoldeb arweiniol dros weithredu Rhaglen Gwasanaethau Plant Integredig y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP) yn llwyddiannus ac yn ddiogel. Yn hanfodol, ar gyfer y Strategaeth Cymorth Cynnar, bydd hyn yn cynnwys datblygu model gwasanaeth newydd ar gyfer plant anabl yn seiliedig ar gysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â model gwasanaeth i bobl 0-25 oed; cwmpasu dull pontio gwell, effeithiol; trefniadau darparu gweithredol integredig sengl rhwng partneriaid; costeffeithiolrwydd gwell, yn arbennig mewn perthynas â chomisiynu allanol ar gyfer cymorth cymunedol a lleoliadau preswyl neu debyg; ac ymgorffori gofynion sy'n codi o newidiadau ym maes addysg i mewn i'r polisi anghenion ychwanegol.

## Dull Gweithredu

Mae'r Strategaeth Cymorth Cynnar hon yn ceisio datblygu dull gweithredu sy'n cefnogi darpariaeth gydlynol effeithiol o wasanaethau atal ac Ymyrraeth Gynnar sy'n datrys cymhlethdodau o ran y cysylltiad rhwng Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Plant (gan gynnwys GCID) a'r ddarpariaeth ehangach o gymorth i deuluoedd yng Nghaerdydd. Bydd y dull gweithredu yn

- mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan (neu ***Rhoi'r Teulu yn Gyntaf***) sy'n ceisio diwallu anghenion ychwanegol rhieni sy'n effeithio ar eu gallu i ddiwallu anghenion eu plant, gan gadw'r plentyn neu berson ifanc wrth wraidd unrhyw ymyriad.
- darparu fframwaith sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n ymyrryd ar y cam cynharaf er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.
- sicrhau bod camau diogelu priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu diogelu'n effeithiol gan bob asiantaeth ac aelod o staff sy'n gweithio gyda nhw.
- annog cydweithio i leihau dyblygu mewn meysydd fel asesiadau anghenion a chau'r bylchau mewn darpariaeth rhwng yr haenau o wasanaethau sy'n targedu lefelau isel, canolig ac uchel o anghenion / atal, diogelu ac unioni.
- sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn prosesau atal ac Ymyrraeth Gynnar allweddol.
- sicrhau bod barn a phrofiadau plant, pobl ifanc a theuluoedd yn llywio ac yn dylanwadu ar ddyluniad a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau
- defnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio gwaith cynllunio ar gyfer darpariaeth y dyfodol
- hwyluso cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng pob asiantaeth sydd â diddordeb mewn gwaith integredig i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn bodloni'r gofynion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (GCaLl) 2014 ar gyfer yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i sicrhau y gall yr ystod a'r lefel o wasanaethau a gynigir yn lleol ddiwallu'r anghenion gofal a

chymorth a nodir ac y gall yr amrywiaeth o wasanaethau ataliol sydd ar gael atal, oedi neu leihau'n briodol anghenion gofal a chymorth y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed yng Nghaerdydd.

## Egwyddorion Allweddol

Bydd yr egwyddorion allweddol canlynol yn sail i ddarparu ***Cymorth Cynnar***:

1. **Seiliedig ar Ganlyniadau -** mae'r dull gweithredu'n canolbwyntio ar ganlyniadau clir a mesuradwy i blant, yn gysylltiedig â Fframwaith Canlyniadau'r Ddeddf GCaLl.

2. **Dull sy'n Seiliedig ar Gryfderau - Mae plant ar eu gorau yn y cartref.** Mae'r sail dystiolaeth yn glir; oni bai bod rhianta'n anadferadwy o ddiffygiol, mae plant yn gwneud yn well pan gânt eu magu gan eu teuluoedd. Bydd y dull gweithredu'n canolbwyntio ar gryfderau teuluoedd ac ar gefnogi rhieni i gyflawni hyn lle bynnag y bo hyn yn realistig a phosibl.

3. **Cymorth Cynnar ac Ymyrraeth Gynnar a Dargedir ar gyfer y rhai sydd fwyaf Agored i Niwed -** mae'r strategaeth yn cwmpasu datblygiad dull gweithredu sy'n integreiddio cymorth a roddir i alluogi twf a datblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar (e.e. Dechrau'n Deg) gydag ymyriadau a dargedir sydd wedi'u dylunio i atal pryderon sy'n dod i'r amlwg rhag datblygu'n rhai difrifol neu sefydledig (e.e. TCID, Cynhadledd y Grŵp Teulu, Ymyriadau Therapiwtig).

4. **Methodoleg Comisiynu ac Ymchwil mewn Gwasanaethau (Cymdeithasol) Plant -** caiff y dull gweithredu ei ddatblygu ar sail y cylch comisiynu. Fel man cychwyn, cymerir y data lleol sydd ar gael sy'n dadansoddi'r angen ar lefel y boblogaeth. Cyflwynir hyn drwy ddadansoddiad hanesyddol manwl o gohort cynrychioliadol o waith achos y Gwasanaethau Plant. Diben y dadansoddiad hwn yw nodi patrymau mewn natur penderfyniadau dros oes achosion; nodi cyfleoedd ymyrryd a gollwyd neu nad oeddent ar gael i weithwyr achos; ac galluogi'r strategaeth i dargedu datblygiad gwasanaeth newydd ar gyfleoedd ataliol neu adferol hanfodol yn y llwybr, o'r atgyfeiriad i adael gofal.

5. **Arfer yn Seiliedig ar Dystiolaeth -** bydd datblygiad mentrau newydd neu'r broses o ail-dargedu adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o'r hyn 'sy'n gweithio'.

6. **Dull Gweithredu Partneriaeth** - Bydd ymrwymiad partneriaeth i ail-dargedu'r adnoddau partner sydd ar gael yn hytrach na lleihau'r galw neu gwtogi ymyriadau i'r pwynt angenrheidiol isaf yn allweddol i lwyddiant y Strategaeth. Ymysg y nodweddion allweddol o waith integredig effeithiol, y mae angen iddynt fod ar waith ym mhob man, mae gweledigaeth a rennir, dealltwriaeth glir o anghenion a nodi bylchau, ffocws clir ar wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, negeseuon clir a chyson yn cael eu cyfleu i staff a theuluoedd, a strategaeth datblygu'r gweithlu integredig ategol. Mae angen neilltuo amser i adeiladu ffydd, perthnasau cryf ac, yn y pen draw, i sicrhau ymrwymiad pob asiantaeth.

7. **Cysylltedd -** bydd y dull gweithredu'n ystyried strategaethau a mentrau traws-gyfarwyddiaeth a thraws-bartneriaeth ehangach i sicrhau synergedd a'r effaith fwyaf posibl (Cymunedau yn Gyntaf, EETS, Cymunedau Diogelach, Partneriaethau Cymdogaethau, Troubled Families).

8. **Ymgysylltu'n Effeithiol ac yn Ystyrlon â Phlant, Pobl Ifanc a'r Rhieni / Gofalwyr -** Drwy ddefnyddio grwpiau ffocws pwrpasol, a chael mynediad i grwpiau sydd eisoes yn bodoli lle gall rhieni a gofalwyr, plant, pobl ifanc a theuluoedd gyfrannu'n weithredol at weithrediad y dull gweithredu a chynnig adborth ac awgrymiadau ar gyfer adolygu a gwerthuso'r canlyniadau cysylltiedig yn barhaus.

9. **Datblygu'r Gweithlu yn Effeithiol** - Mae tystiolaeth leol yn awgrymu bod diffyg hyder a phrofiad yn broblem i weithwyr proffesiynol ym mhob math o leoliadau wrth weithio'n uniongyrchol gyda rhieni a theuluoedd, yn arbennig os ydynt yn ddifreintiedig. Mae'n hanfodol parhau i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau a gallu'r gweithlu i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni. Ar gyfer rhai ymyriadau, yn arbennig rhai sy'n ymwneud ag allgymorth neu gymorth dwys, mae angen newid arferion i alluogi gwasanaethau i gael eu cynnig y tu allan i oriau 'arferol' er mwyn diwallu anghenion teuluoedd. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys staff arbenigol yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o asiantaethau eraill, gyda gweithiwr proffesiynol arweiniol neu weithiwr arweiniol yn cynnig cymorth cyson.

## Cynllun Gweithredu

Nodir y camau allweddol ar gyfer gweithredu'r strategaeth mewn **Cynllun Gweithredu** sy'n dod gyda'r Strategaeth hon**.** Mae'r cynllun yn nodi camau gweithredu:

- y gellir eu cyflawni o fewn 6 mis o lansiad y strategaeth (wedi'u nodi mewn glas),
- y gellir eu cyflawni o fewn 12-18 mis o lansiad y strategaeth (wedi'u nodi mewn pinc),
- y gellir eu cyflawni o fewn 3 blynedd (wedi'u nodi mewn gwyrdd).

Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'r effaith / canlyniadau disgwyliedig mewn perthynas â phob cam penodol.

Mae gwaith partneriaeth yn allweddol i gyflawni'r strategaeth ac mae'r cynllun yn nodi nid yn unig yr arweinwyr, ond hefyd y sefydliadau / unigolion sydd wedi'u nodi i gefnogi'r arweinwyr i gyflawni'r camau gweithredu a'r canlyniadau disgwyliedig.

Y bwriad yw y caiff data sylfaenol ei bennu yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, gyda thargedau cynnydd yn cael eu gosod yn yr ail flwyddyn gyda'r disgwyliad y bydd gwelliannau blynyddol yn cael eu nodi o'r ail flwyddyn ymlaen.

Caiff cynnydd yn erbyn y camau allweddol a amlinellir yn y cynllun ei fonitro drwy'r Grŵp Llywio Atal ac Ymyrraeth Gynnar gydag adroddiadau chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Plant a Theuluoedd Agored i Niwed. Caiff cynnydd hefyd ei adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

# ATODIADAU

| | |
|---|---|
| (cyan) | Gellir ei gyflawni o fewn 6 mis o lansiad y strategaeth |
| (pink) | Gellir ei gyflawni o fewn 12-18 mis o lansiad y strategaeth |
| (green) | Gellir ei gyflawni o fewn 3 blynedd |

# Cynllun Gweithredu Strategaeth Cymorth Cynnar 2015-2018

**Amcan 1**

**Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael help ar y lefel isaf neu ymyriad sy'n ddiogel ac effeithiol o ran hyrwyddo canlyniadau da**

**1. Gwella ystod ac effeithiolrwydd Cymorth Cynnar drwy:**

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Cefnogir gan | Dull Gweithredu | Mesurau | Canlyniadau Disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 Datblygu Llwybr Cymorth Cynnar sy'n diwallu pob lefel o anghenion | Rheolwr Project Gwella - Atal a Phartneriaethau | Aelodau'r Grŵp Llywio Atal ac Ymyrryd Cynnar (AaYC) | • Grwpiau ffocws / gweithdai / cyfarfodydd Grŵp Llywio AaYC | • Llwybr Cymorth Cynnar (Map Proses) ar waith.<br>• Effaith ar atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant | • Teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn brydlon.<br>• Lleihad mewn atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant |
| 1.2 Datblygu Llwybr Asesu a Chynllunio sy'n nodi mecanwaith asesu cyffredin (e.e. Fframwaith Cyd-asesu'r Teulu) i blant, pobl ifanc a theuluoedd nad oes angen gwasanaeth statudol arnynt. | Rheolwr Project Gwella - Atal a Phartneriaethau | Aelodau'r Grŵp Llywio Atal ac Ymyrryd Cynnar (AaYC) | • Grwpiau ffocws / gweithdai / cyfarfodydd Grŵp Llywio AaYC | • Llwybr Asesu a Chynllunio (Map Proses) ar waith | • Anghenion teuluoedd yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r FfCT oni bai bod angen ymyriad gan y Gwasanaethau (Cymdeithasol) Plant. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.3 Cytuno ar ddull gweithredu cyffredin mewn perthynas â'r *Cynllun Teulu* | Rheolwr Project Gwella - Atal a Phartneriaethau | Aelodau'r Grŵp Llywio Atal ac Ymyrryd Cynnar (AaYC) | • Grwpiau ffocws / gweithdai / cyfarfodydd Grŵp Llywio AaYC | • Mae Cynllun Teulu enghreifftiol ar gael a cheir tystiolaeth o ddefnydd gan amrywiaeth o asiantaethau. | • Anghenion teuluoedd yn cael eu diwallu drwy ddarparu Cynllun Teulu sy'n seiliedig ar gryfderau |
| 1.4 Atgyfnerthu trefniadau ar gyfer cynllunio amlasiantaeth a rheoli risg a datblygu rôl *Gweithiwr Arweiniol* ar gyfer ymyriadau sy'n dod o dan drothwyon y Gwasanaethau Plant | Rheolwr Project Gwella - Atal a Phartneriaethau | Aelodau'r Grŵp Llywio Atal ac Ymyrryd Cynnar | • Grwpiau ffocws / gweithdai / cyfarfodydd Grŵp Llywio AaYC | • Mae adnodd cynllunio a rheoli risg amlasiantaeth ar waith a cheir tystiolaeth o ddefnydd gan amrywiaeth o asiantaethau. | • Mae gan bob teulu sy'n cael cymorth weithiwr arweiniol penodedig i gydlynu'r cymorth. |
| 1.5 Gweithredu Fframwaith Rhianta Caerdydd sy'n ceisio cefnogi amrywiaeth o ymyriadau rhianta yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer teuluoedd â lefelau amrywiol o anghenion a monitro effaith. | Cydlynydd Rhianta | Asiantaethau sy'n darparu Cymorth Rhianta | • Cyfarfodydd Ymarferwyr Rhianta / Rheolwyr | • Amrywiaeth a lefel y rhaglenni rhianta yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir ledled y ddinas.<br>• Adroddiadau cynnydd ar dasgau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Fframwaith Rhianta. | • Rhieni / gofalwyr y mae angen cymorth rhianta arnynt yn gallu cael mynediad i grŵp yn seiliedig ar dystiolaeth neu raglen unigol ar yr amser cywir er mwyn diwallu eu hanghenion yn brydlon. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.6 Cynnal adolygiad i Ddiweddaru Cyfeirlyfr Cymorth Teuluol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) i sicrhau bod y deunydd a gedwir am wasanaethau yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn gyfredol fel y gall teuluoedd a gweithwyr proffesiynol gael mynediad i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn rhwydd, yn y fformat y maent yn ei ddewis, ar yr adeg y maent yn dewis gwneud hynny. | Rheolwr GGiD | Asiantaethau sy'n darparu Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd | • Archwilio<br>• Cynnwys yn y cyfeirlyfr holiaduron / ffurflenni ar-lein a gwblhawyd gan asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau | • Cyfradd cwblhau holiaduron<br>• Adborth defnyddwyr y cyfeirlyfr i bennu ei ddefnyddioldeb | • Gall rhieni gael mynediad i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt am argaeledd gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu eu hanghenion. |
| Datblygu pwynt mynediad canolog (ar y wefan GGiD o bosib) er mwyn i weithwyr proffesiynol gael mynediad i ddeunyddiau Cymorth Cyntaf megis FfCT, llwybr Cymorth Cynnar / Asesiad, Cynllun Teulu enghreifftiol ac ati | Rheolwr GGiD / Rheolwr Project Gwella - Atal a Phartneriaethau | Aelodau'r Grŵp Llywio Atal ac Ymyrryd Cynnar | • Grwpiau ffocws / gweithdai / cyfarfodydd Grŵp Llywio AaYC | • Gwefannau ar waith yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i gefnogi gweithrediad y Strategaeth Cymorth Cynnar | • Cysondeb dull gweithredu Ymarferwyr yn arwain at ganlyniadau gwell i deuluoedd |

**2. Gwella effeithiolrwydd llwybrau camu i fyny a chamu i lawr drwy:**

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Cefnogir gan | Dull Gweithredu | Mesurau | Canlyniadau Disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 Atgyfernthu a/neu ailfodelu gwasanaethau presennol sy'n ceisio cadw plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd ar y trothwy gofal yn eu cartrefi (e.e. GCID, GYChD, Gofal Cymorth); a datblygu gwasanaethau newydd sydd â sail dystiolaeth gadarn (e.e. model Blackburn & Darwen) | Rheolwr Gweithredol (RhG) y Gwasanaethau Plant, Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | Rheolwr y Gwasanaethau Ymyrraeth a Chymorth i Deuluoedd (GYChD) a RhG a Rheolwyr Tîm (RhT) rheoli achosion y Gwasanaethau Plant<br><br>Cyfarwyddiaethau eraill y Cyngor (e.e. Cymunedau, Addysg) | • Grwpiau Project | • Adroddiadau cynnydd ar Gynlluniau Project<br>• Sefydlu gwasanaethau newydd<0} | • Amrywiaeth well o wasanaethau atal<br>• Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd ar drothwy gofal yn cael eu cefnogi'n effeithiol yn eu teuluoedd lle y bo'n briodol.<br>• Lleihad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) (yn arbennig unigolion yn eu harddegau sy'n dechrau derbyn gofal). |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.2 Adolygu a diweddaru'r Protocol Cydweithio rhwng gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion ychwanegol rhieni y mae eu hanghenion eu hunain yn effeithio'n negyddol ar eu gallu i ddiogelu a diwallu anghenion eu plant (GCID; Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol; darpariaeth iechyd meddwl i oedolion; gwasanaethau i Ofalwyr Ifanc) | Rheolwr Gweithredol (RhG) y Gwasanaethau Plant, Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | Rheolwr y Gwasanaethau Ymyrraeth a Chymorth i Deuluoedd (GYChD), RhG a Rheolwyr Tîm (RhT) rheoli achosion y Gwasanaethau Plant, a RhG a RhT Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IaGC) | • Grŵp Gorchwyl a Gorffen | • Cytuno ar y Protocol diwygiedig.<br>• Camau gweithredu allweddol yn y cynllun gweithredu yn cael eu cyflawni o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt. | • Plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn teuluoedd lle mae gan rieni / gofalwyr anghenion ychwanegol yn cael eu diogelu'n briodol.<br>• Lleihad yn nifer y plant sy'n dechrau Derbyn Gofal gan nad yw eu rhieni / gofalwyr yn gallu diwallu eu hanghenion gan nad yw anghenion y rhieni / gofalwyr eu hunain yn cael eu diwallu. |
| 2.3 Defnyddio dulliau yn seiliedig ar gryfderau i hwyluso cyfleoedd i deuluoedd nodi eu cryfderau eu hunain ac annog a chefnogi'r teulu ehangach i ddod ynghyd mewn argyfwng i ddatblygu cynllun sy'n cefnogi'r plentyn ac yn atal y teulu rhag chwalu neu sy'n hyrwyddo ailuno'r teulu (e.e. Cyfarfodydd Grŵp Teulu / Dulliau Adferol) | Rheolwr Gweithredol (RhG) y Gwasanaethau Plant, Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | Rheolwr y Gwasanaethau Ymyrraeth a Chymorth i Deuluoedd (GYChD), RhG a Rheolwyr Tîm (RhT) rheoli achosion y Gwasanaethau Plant, Rheolwr Hyfforddiant Gofal Cymdeithasol | • Grwpiau Project<br>• Cynllun Hyfforddi a Digwyddiadau Hyfforddi | • Adroddiadau cynnydd ar Gynlluniau Project<br>• Mynychu digwyddiadau hyfforddi<br>• Gweithredu gwasanaethau newydd (e.e. Cyfarfodydd Grŵp Teulu) | • Mae teuluoedd yn cael eu grymuso lle y bo'n briodol i ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain i anawsterau drwy edrych o fewn y teulu am gymorth lle y bo'n bosib.<br>• Lleihad yn nifer y plant sy'n dechrau Derbyn Gofal o ganlyniad i chwalu teuluol. |

**Amcan 2**

**Sicrhau bod Gwasanaethau (Cymdeithasol) Plant yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy wella effeithiolrwydd ymyriadau gwaith cymdeithasol**

**1. Ailddylunio'r model ar gyfer darparu cymorth ac ymyriadau gwaith cymdeithasol**

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Cefnogir gan | Dull Gweithredu | Mesurau | Canlyniadau Disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 Dileu biwrocratiaeth (Adolygiad LEAN) ac arbed amser gwaith cymdeithasol i weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd | Rheolwr Gweithredol (RhG) y Gwasanaethau Plant, Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | Rheolwr Cymorth Busnes ac aelodau o'r Grŵp Project, gan gynnwys cydweithwyr o'r adran Pensaernïaeth Mentrau | • Cynllun Project yn defnyddio methodoleg Adolygiad LEAN<br>• Grŵp Project | • Adroddiadau cynnydd ar weithredu camau sy'n deillio o ddigwyddiadau gwelliant cyflym. | • Gall Gweithwyr Cymdeithasol symud teuluoedd i lawr i ymyriadau lefel-is yn fwy prydlon.<br>• Morâl a boddhad swyddi Gweithwyr Cymdeithasol yn gwella wrth iddynt sicrhau canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a theuluoedd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.2 Adolygu system CareFirst (system cofnodion cleientiaid) i sicrhau ei bod yn cyrraedd ei photensial | Rheolwr Gwasanaeth - Rheoli Perfformiad | Gweinyddwr Systemau CareFirst, RhG Gwasanaethau Plant | • Archwiliad o swyddogaeth allweddol a gallu'r system<br>• Grŵp Project | • Adroddiadau cynnydd ar weithredu camau sy'n deillio o'r archwiliad a'r cynllun project | • Mae gan weithwyr cymdeithasol fwy o gapasiti i gynnal gwaith yn uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.<br>• Morâl a boddhad swyddi Gweithwyr Cymdeithasol yn gwella wrth iddynt sicrhau canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a theuluoedd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.3 Ailstrwythuro timau gwaith cymdeithasol o amgylch modelau 'a arweinir gan Ymgynghorwyr Arfer' o ran ymyriadau amlddisgyblaethol | Rheolwr Project Gwella - Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol | Tîm Rheoli Gwasanaethau Plant (TRhGP) | • Grŵp Project<br>• Grwpiau Ffocws<br>• Digwyddiadau hyfforddi<br>• Ymweliadau ag Awdurdodau Lleol eraill<0} | • Adroddiadau cynnydd ar weithredu camau sy'n deillio o'r archwiliad a'r cynllun project | • Mae gan weithwyr cymdeithasol fwy o gapasiti i gynnal gwaith yn uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.<br>• Gall Gweithwyr Cymdeithasol symud teuluoedd i lawr i ymyriadau lefel-is yn fwy prydlon.<br>• Morâl a boddhad swyddi Gweithwyr Cymdeithasol yn gwella wrth iddynt sicrhau canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a theuluoedd. |
| 1.4 Rhesymoli'r cymysgedd sgiliau i alluogi cohort llai o weithwyr cymdeithasol medrus iawn i ganolbwyntio ar newid ymddygiadol | Rheolwr Project Gwella - Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol | Tîm Rheoli Gwasanaethau Plant (TRhGP), RhT rheoli achosion | • Grŵp Project<br>• Grwpiau Ffocws<br>• Digwyddiadau hyfforddi | • Adroddiadau cynnydd ar weithredu camau sy'n deillio o'r archwiliad a'r cynllun project | • Gweler uchod - yr un peth sy'n berthnasol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.5 Atgyfnerthu'r dull gweithredu mewn perthynas â natur 'barhaol' lle bo penderfyniadau cynnar i wahanu babanod o'u teuluoedd yn seiliedig ar dystiolaeth a chyfiawnhad. (Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus (AGG) a Phanel Cyfreithiol; Gwasanaethau Mabwysiadu) | RhG Derbyn ac Asesu ac Ymyrraeth Gynnar | RhG Plant Mewn Angen / Diogelu Plant, RhC PDG, RhG Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | • Gweithredu Cymorthfeydd Cyfreithiol<br>• Gweithredu Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol (GMRh) | • Mae'r GMRh ar waith ac mae perfformiad yn erbyn dangosyddion mabwysiadu cenedlaethol wedi gwella ar gyfer y rhanbarth.<br>• Adroddiadau cynnydd ar effaith Cymorthfeydd Cyfreithiol | • Mae babanod sy'n cael eu gwahanu o'u teuluoedd biolegol yn cael y cyfle gorau i gyrraedd eu potensial drwy'r sefydlogrwydd a'r diogelwch a gynigir gan deulu parhaol gwahanol. |

## 2. Hyrwyddo Gofal gan Berthynas

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Cefnogir gan | Dull Gweithredu | Mesurau | Canlyniadau Disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 Ymestyn cyfleoedd i berthnasau ofalu am blant nad ydynt yn gallu aros gyda'u rhieni | RhG Derbyn ac Asesu ac Ymyrraeth Gynnar / RhG Plant Mewn Angen / Diogelu Plant, | RhG Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | • Datblygu Polisi a Gweithdrefnau Gofal gan Berthynas | • Mae polisi a gweithdrefnau ar waith<br>• Cynnydd yn nifer y trefniadau sydd ar waith lle mae perthnasau yn gofalu am blant nad ydynt yn gallu aros gyda'u rhieni.<0} | • Cynnydd yn nifer y plant, pobl ifanc a theuluoedd nad ydynt yn gallu aros gyda'u rhieni sy'n cael cyfle i aros o fewn eu teulu estynedig a derbyn gofal gan berthynas |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.2 Ehangu Opsiynau Gwarchodaeth Arbennig (OGA) a Gorchmynion Preswylio (GP) | RhG PDG | RhG Plant Mewn Angen / Diogelu Plant, RhC PDG, RhG Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | • Datblygu Strategaeth Gofal gan Berthynas<br>• Lansio project OGA/GP gyda gofalwyr maeth sydd â phlant mewn lleoliadau hirdymor a ystyrir yn rhai 'parhaol'.<0} | • Strategaeth ar waith<br>• Adroddiad cynnydd ar y project OGA/GP<br>• Cynnydd yn nifer yr OGA/GP | • Cynnydd yn nifer y plant sy'n cael diogelwch a sefydlogrwydd drwy OGA a GP gan eu gofalwyr. |
| 2.3 Archwilio ymarferoldeb ail-alinio adnoddau i gefnogi'r asesiadau sy'n ymwneud â'r gwaith a nodwyd yn flaenorol sy'n cael ei wneud o fewn y Gwasanaeth Maethu. | RhG Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | RhG Derbyn ac Asesu ac Ymyrraeth Gynnar / RhG Plant Mewn Angen / Diogelu Plant | • Grŵp Project | • Adroddiad cynnydd ar Gynllun Project | • Cynnydd yn nifer y plant, pobl ifanc a theuluoedd nad ydynt yn gallu aros gyda'u rhieni sy'n cael cyfle i aros o fewn eu teulu estynedig a derbyn gofal gan berthynas<br>• Cynhelir yr asesiad o Ofalwyr Maeth sy'n Berthnasau yn brydlon, ac nid yw'r gwaith yn cael effaith negyddol ar y capasiti sydd ei angen ar y Gwasanaeth Maethu i recriwtio ac asesu mwy o Ofalwyr Maeth prif ffrwd. |

**3. Atgyfnerthu'r Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) Arbenigol a 'Thorri'r Cylch Dieflig'**

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Cefnogir gan | Dull Gweithredu | Mesurau | Canlyniadau Disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 Sicrhau bod lleoliadau parhaol mor effeithiol â phosib i alluogi PDG i gyrraedd eu llawn botensial. | RhG PDG | RhG Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | • Datblygu Strategaeth PDG | • Gweithredu camau allweddol yng nghynllun gweithredu'r strategaeth<br>• Fframwaith Monitro Perfformiad chwarterol<br>• Adrodd yn chwarterol drwy'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Dysgu | • Mae PDG yn cael y cyfle gorau i gyrraedd eu potensial drwy'r sefydlogrwydd a diogelwch a gynigir gan deulu parhaol gwahanol. |
| 3.2 Sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu rheoli'n weithredol i hyrwyddo cyfleoedd cynnar i ddychwelyd at y teulu | RhG Plant Mewn Angen / Diogelu Plant, RhG PDG | Rheolwr GYChD, RhG Diogelu | • Goruchwyliaeth<br>• Hyfforddiant<br>• RhG / RhT yn archwilio Ffeiliau Achos<br>• Adroddiad Swyddog Adolygu Annibynnol | • Fframwaith Monitro Perfformiad chwarterol<br>• Adrodd yn chwarterol drwy'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Dysgu | • Lle y bo'n briodol, mae PDG yn cael y cyfle i ddychwelyd i'w cartrefi at eu teuluoedd yn brydlon.<br>• Cynnydd yn y cynlluniau gofal sy'n cael eu cyflawni lle nodwyd 'dychwelyd i'r cartref' fel y canlyniad a ddymunir. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.3 Gwrthdroi'r duedd at ofal preswyl sy'n cael ei brynu'n allanol i ffafrio lleoliadau gyda theuluoedd lleol | RhG Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | RhG PDG | • Cynllun Comisiynu<br>• Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth yn Fewnol | • Cynnydd yn nifer y Gofalwyr Maeth mewnol<br>• Newid y duedd o ran lleoliadau mewnol - allanol<br>• Cynnydd yn y ddarpariaeth breswyl allanol a gynigir mewn ardal leol<0} | • Lleihad yn nifer y PDG a roddir mewn gofal preswyl a chynnydd yn nifer y PDG sy'n cael lleoliadau gyda theulu lleol a, lle y bo'n briodol, caiff PDG eu lleoli'n agosach at eu cartrefi. |
| 3.4 Cyflawni'r fenter Talu yn ôl Canlyniadau PDG o amgylch Gofal Maeth Lefel Uwch. | RhG PDG | RhG Strategaeth, Comisiynu ac Adnoddau | • Grŵp Gweithredu | • Mae'r cynllun ar waith ac mae mwy o blant wedi dychwelyd o leoliadau y tu allan i'r ardal yn unol â'u cynlluniau gofal | • Lle y bo'n briodol, mae PDG yn cael eu lleoli'n agosach at eu cartref mewn lleoliad teuluol. |

**Atodiad A: Cynllun Gwaith**

**Amcan 1**

Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael help ar y lefel mwyaf sylfaenol neu ymyriad sy'n ddiogel ac effeithiol o ran hyrwyddo canlyniadau da.

**Gwella ystod ac effeithiolrwydd Cymorth Cynnar drwy:**

- Datblygu Llwybr Cymorth Cynnar sy'n diwallu pob lefel o anghenion
- Datblygu Llwybr Asesu a Chynllunio sy'n nodi mecanwaith asesu cyffredin (e.e. Fframwaith Cyd-asesu Teuluol) i blant, pobl ifanc a theuluoedd nad oes angen gwasanaeth statudol arnynt.
- Cytuno ar ddull gweithredu cyffredin mewn perthynas â'r *Cynllun Teulu*
- Atgyfnerthu trefniadau ar gyfer cynllunio amlasiantaeth a rheoli risg a datblygu rôl *Gweithiwr Arweiniol* ar gyfer ymyriadau sy'n is na throthwyon y Gwasanaethau Plant
- Gweithredu Fframwaith Rhianta Caerdydd sy'n ceisio cefnogi amrywiaeth o ymyriadau rhianta yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer teuluoedd â lefelau amrywiol o anghenion a monitro effaith.
- Cynnal adolygiad i Ddiweddaru Cyfeirlyfr Cymorth Teuluol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i sicrhau bod y deunydd a gedwir am wasanaethau yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn gyfredol fel y gall teuluoedd a gweithwyr proffesiynol gael mynediad i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn rhwydd, yn y fformat y maent yn ei ddewis, ar yr adeg y maent yn dewis gwneud hynny.

**Gwella effeithiolrwydd llwybrau camu i fyny a chamu i lawr drwy:**

- Harneisio'r Tîm o Amgylch y Teulu fel y fframwaith cyffredinol

| |
|---|
| - Atgyfnerthu'r protocol rhwng TAT a'r Gwasanaethau Plant<br>- Cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer cyd-reoli atgyfeiriadau drws blaen gyda phartneriaid gan ddefnyddio dull amlasiantaeth a model sy'n hyrwyddo ymgynghori a chyngor yn ogystal â chynnig llwybr atgyfeirio at wasanaethau statudol. |
| **Amcan 2**<br><br>Sicrhau bod Gwasanaethau (Cymdeithasol) Plant yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy atgyfnerthu effaith ymyriadau gwaith cymdeithasol |
| **Ail-ddylunio'r model ar gyfer darparu cymorth ac ymyriadau gwaith cymdeithasol drwy**<br>- Ddileu biwrocratiaeth (Adolygiad LEAN) ac arbed amser gwaith cymdeithasol i weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd<br>- Adolygu CareFirst<br>- Ailstrwythuro timau gwaith cymdeithasol o amgylch modelau 'a arweinir gan Ymgynghorwyr Arfer' o ran ymyriadau amlddisgyblaeth<br>- Rhesymoli'r cymysgedd sgiliau i alluogi cohort llai o weithwyr cymdeithasol medrus iawn i ganolbwyntio ar newid ymddygiadol<br>- Atgyfnerthu ein dull gweithredu mewn perthynas â natur 'barhaol' lle bo penderfyniadau cynnar i wahanu babanod o'u teuluoedd yn seiliedig ar dystiolaeth a chyfiawnhad. (Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus (AGG) a Phanel Cyfreithiol; Gwasanaethau Mabwysiadu) |
| **Hyrwyddo Gofal gan Berthynas drwy**<br>- Ymestyn cyfleoedd i berthnasau ofalu am blant nad ydynt yn gallu aros gyda'u rhieni<br>- Ehangu Opsiynau Gwarchodaeth Arbennig a |

| | |
|---|---|
| | Gorchmynion Preswylio<br><br>o Archwilio ymarferoldeb ail-alinio adnoddau i gefnogi'r asesiadau sy'n ymwneud â'r gwaith a nodwyd yn flaenorol sy'n cael ei wneud o fewn y Gwasanaeth Maethu. |
| **Atgyfnerthu'r Gwasanaeth PDG Arbenigol a 'Thorri'r Cylch Dieflig' drwy** | |
| | o Sicrhau bod lleoliadau parhaol mor effeithiol â phosib i alluogi PDG i gyrraedd eu llawn botensial.<br><br>o Sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu rheoli'n weithredol i hyrwyddo cyfleoedd cynnar i ddychwelyd at y teulu<br><br>o Gwrthdroi'r duedd at ofal preswyl sy'n cael ei brynu'n allanol i ffafrio lleoliadau gyda theuluoedd lleol<br><br>o Cyflawni'r fenter Talu yn ôl Canlyniadau PDG o amgylch Gofal Maeth Lefel Uwch. |

## {0><}0{>**Atodiad B: Sbectrwm Anghenion a Gwasanaethau**<0}

{0><}0{>Rhai anghenion ychwanegol sydd angen cymorth a dargedir. Mae unrhyw broblemau a nodir ar gam cynnar. Mae gwasanaethau a gynigir yn y rhan hon o'r sbectrwm yn cynnwys;<0}

- {0><}0{>Rhaglenni rhianta a dargedir (e.e. Dechrau'n Deg)<0}
- {0><}0{>Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol<0}
- {0><}0{>Projectau Teuluoedd yn Gyntaf<0}

{0><}0{>Anghenion pob plentyn, person ifanc a theulu. Mae gwasanaethau yn y rhan hon o'r sbectrwm yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol sydd ar gael i bawb, megis:<0}

- {0><}0{>cyrsiau rhianta sylfaenol, <0}
- {0><}0{>grwpiau cymorth anffurfiol, <0}
- {0><}0{>cyngor ar arian a thai, <0}
- {0><}0{>Ymweliadau Iechyd, <0}
- {0><}0{>dulliau gweithredu ysgol gyfan.<0}

{0><}0{>O.N. Mae'r gwasanaethau cyffredinol hyn yn parhau i fod ar gael i deuluoedd wrth iddynt symud o




{0><}0{>**O.N. Mae Ymyrraeth Gynnar yn eistedd rhwng**<0}

{0><}0{>Anghenion mwy difrifol a chymhleth y mae angen dull gweithredu amlasiantaethol ar eu cyfer. Mae gwasanaethau a gynigir yn y rhan hon o'r sbectrwm yn cynnwys;<0}

- {0><}0{>Tîm o Amgylch y Teulu<0}
- {0><}0{>Gwasanaethau cydlynol ar gyfer anghenion cymhleth <0}

{0><}0{>Plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â'r lefelau uchaf o anghenion, y mae angen cymorth dwys, arbenigol arnynt, weithiau i ffwrdd o'r cartref. Fel arfer caiff y gwasanaethau hyn eu darparu fel rhan o ymyriad statudol ac maent yn cynnwys:<0}

- {0><}0{>Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd (GCID) / Gwasanaethau Ymyrraeth a Chymorth i Deuluoedd (GYChD)<0}
- {0><}0{>Maethu Arbenigol<0}
- {0><}0{>Gofal Preswyl<0}
- {0><}0{>Seibiannau byr i blant anabl<0}

**Atodiad C**: **Cyd-destun Caerdydd**

Crynodeb o ddata demograffig allweddol, ffactorau economaidd-gym
a dangosyddion lles ychwanegol sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghaerdydd.

## Demograffeg

Mae data'r *Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)* yn dangos bod poblo
Cymru wedi cynyddu gan 153,000 (5%) i fwy na 3.06m dros y degaw
diwethaf, yn bennaf oherwydd mudo o weddill y DU a thramor. Dang
Cyfrifiad 2011 fod y twf yn uwch nag unrhyw gyfnod o 10 mlynedd rh
cyfrifiadau ers 1921, er ei fod yn arafach na Lloegr, a gododd gan 3.6

Mae Caerdydd wedi tyfu'n gynt nag unrhyw le arall yng Nghymru, ga
(36,000) ers 2001. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod gan Gaerdydd bo
o 350,000.

O blith awdurdodau lleol Cymru, Caerdydd sydd â'r dwysedd pobloga
uchaf gyda 2,500 o bobl fesul cilometr sgwâr. Ac eithrio cyfnod o leih
ystod y 1970au a'r 1980au, mae poblogaeth Caerdydd wedi bod yn t
barhaus ers 1801. Rhwng 2001 a 2011, tyfodd Caerdydd gan 46,000
25% o dwf Cymru gyfan, ac mae bellach yn cynrychioli 30% o dwf y
Mae 90% o dwf y wlad o ganlyniad i fudo, nid twf naturiol. Mae hyn y
cynnwys pobl yn symud o fannau eraill yn y DU, yn ogystal â thramo

Yn ddigon difyr, mae gan Gaerdydd y ganran isaf o bobl dros 65 oed
Nghymru, sef 13%, tra bod gan Gymru ar y cyfan ganran uwch o bob
oed na bron pob ardal arall yn Lloegr.

Mae ffigurau'n dangos bod 11,000 yn fwy o blant dan 5 oed yn 2011
2001, cynnydd o 7%. Yng nghanol 2013, roedd 25% o boblogaeth C
o dan 19 oed.

Mae gan Gaerdydd boblogaeth amrywiol iawn, gyda hanes o gysyllti
masnach, mewnfudo ar ôl y rhyfel, a myfyrwyr tramor sy'n mynychu
Yng Nghyfrifiad 2011, roedd cyfansoddiad hiliol ac ethnig Caerdydd f
ganlyn: Gwyn: 84.7% - Asiaidd: 8% - Du: 2.4% - Arabaidd: 1.4% - Cy
Du Affricanaidd/Caribïaidd a Gwyn: 1.6% - Cymysg - Gwyn ac Asiai
Cymysg - arall: 0.6% - Grwpiau ethnig eraill: 0.6%

Mae mwy na 54,000 o bobl yng Nghaerdydd yn perthyn i grŵp ethni
yn wyn.

Yng Nghyfrifiad 2011, nodwyd yr hunaniaethau cenedlaethol canlyn

- Cymreig yn unig: 50%

- Cymreig a Phrydeinig: 8%
- Cyfuniad Cymreig arall: 4%
- Seisnig yn unig: 8%
- Seisnig a Phrydeinig: 2%
- Cyfuniad Seisnig arall: 1%
- Prydeinig yn unig: 21%
- Cyfuniad Prydeinig arall: 11%
- Arall: 10%

## Ffactorau economaidd-gymdeithasol

Mae tlodi'n effeithio ar iechyd corfforol a meddwl plant, cyfraddau damweiniau, cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd cymdeithasol. Mae magu plant mewn ardaloedd o amddifadedd yn rhoi mwy o straen ar rieni. Ceir ardaloedd o amddifadedd yng Nghaerdydd, yn arbennig yn rhan Ddeheuol y ddinas. Fodd bynnag, ceir pocedi o amddifadedd cudd mewn ardaloedd llai difreintiedig hefyd.

Mae 6,888 o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (LCG) yng Nghaerdydd, gyda'r cyfraddau uchaf yn Nhrelái (6.5) a Chaerau (5.4) a'r isaf yn Radur (0.6) a Llys-faen (0.9). Mae'r cyfraddau'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r boblogaeth breswyl rhwng 16 a 64 oed yng nghanol 2013 (Ffynhonnell: *Cyfrif Hawlwyr, Nomis*).

Nodir enillion cyfartalog Gros pobl Caerdydd yn y tabl isod (Ffynhonnell: *Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2014/NOMIS/SYG*)

| Enillion Wythnosol Gros Canolrifol a Newid Canrannol Blynyddol yn ôl Preswylfa 2014 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithlu | Enillion Wythnosol Gros Canolrifol (£) | | | Newid Canrannol Blynyddol (%) | | |
| | Caerdydd | Cymru | Y Deyrnas Unedig | Caerdydd | Cymru | Y Deyrnas Unedig |
| Pob Gweithiwr Llawn Amser: | 490.9 | 479.4 | 518.0 | -2.5 | 0.9 | 0.1 |
| Dynion Llawn Amser | 535.6 | 510.6 | 557.8 | -2.2 | -0.5 | 0.3 |
| Menywod Llawn Amser | 441.0* | 423.4 | 461.9 | -3.0 | 0.5 | 0.6 |

Nodwyd bod 26.2% o blant Caerdydd yn byw mewn teuluoedd incwm isel yn 2012 (Ffynhonnell: *CThEM*) gyda'r canrannau uchaf yn Nhrelái (48%), Butetown (44%) ac Adamsdown (45%) a'r isaf yn Rhiwbeina (4%), Llys-faen (3%) a Chreigiau / Sain Ffagan (5%). Ffynhonnell: *CThEM*)

Yn 2013, roedd 15.6% o blant (o dan 15 oed) yn byw mewn cartrefi di-waith, sy'n is na chyfartaloedd Cymru gyfan, sef 16.5%. ( Ffynhonnell: *StatsCymru, Llywodraeth Cymru)*

## Dangosyddion Lles Eraill

- Ni wnaeth 69 o bobl ifanc allan o gohort o 3492 o ddisgyblion 15 oed gyflawni cymhwyster cydnabyddedig yn 2010/11 ac o'r bobl ifanc hynny gadawodd 32 yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn 2010/11 (0.9%) (Ffynhonnell: *StatsCymru, Llywodraeth Cymru).*

- Cyflawnodd 72% o ddisgyblion o leiaf 5 TGAU Gradd A-E yn 2014. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 82% ond yn gynnydd o 8% ar ffigurau 2012. (Ffynhonnell: *Fy Ysgol Leol*)

- Beichiogodd 35 o ferched yn eu harddegau yn 2013 yn y cohort o bobl ifanc o dan 15 oed, gyda 285 ledled Cymru. Mae'r ffigur hwn yn codi i 174 ar gyfer merched yn eu harddegau o dan 18 oed gyda ffigur Cymru gyfan yn codi i 1476 (Ffynhonnell: *SYG*)

Cardiff
Caerdydd

**Atodiad D: Llwybr Cymorth Cynnar**

O.N. Dylai'r llwybr hwn gael ei ddefnyddio gyda phob teulu, waeth beth fo'r anghenion neu amgylchiadau arbennig.

***Cymorth Cynnar***: Yn disgrifio'r dull o roi cymorth i blant a allai fod yn agored i niwed, a'u teuluoedd, cyn gynted ag y bo'r broblem yn dod i'r amlwg, er mwyn atal problemau rhag troi'n ddwys, cronig a drud i'r teulu a'r gymuned gyfan. **RHOWCH Y TEULU YN GYNTAF!**

Fodd bynnag, pan fo ymarferwyr yn poeni bod plentyn ***mewn perygl o niwed sylweddol***, rhaid iddynt gysylltu â'r Pwynt Mynediad Plant (PMP). Gellir hefyd gael cyngor ar Gam-drin Plant yn Rhywiol / Rhywioli Plant gan Swyddfa Caerdydd NSPCC.

Gall ***Cymorth Cynnar*** gael ei gynnig drwy lefel uwch o wasanaethau cyffredinol neu wasanaethau a dargedir sy'n cael eu darparu / comisiynu.

***Defnyddir cyfleoedd sgwrsio*** i nodi anghenion a chymorth priodol i'r plentyn a'i deulu ac amrywiaeth o ddulliau o roi'r cymorth ar waith. Mae unrhyw un sy'n gweithio gyda phlentyn neu berson ifanc yn gyfrifol am ddechrau'r *sgyrsiau* ar gyfer plant a theuluoedd. **Dylid datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth** (***PRhG***), os nad ydynt eisoes ar waith, i gefnogi'r broses hon. Fodd bynnag, mae hefyd yn rhaid cael **caniatâd** y teulu i rannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill (oni bai bod y mater yn un sy'n ymwneud â diogelu nad oes angen caniatâd rhiant i'w atgyfeirio i'r PMP).

Mae'r dull gweithredu ***Cymorth Cynnar*** yn seiliedig ar egwyddorion Dulliau Adferol, gan ddatblygu gallu, cadernid ac annibyniaeth drwy ymgysylltu â phobl mewn ffordd sy'n adeiladu ar gryfderau ac yn eu galluogi i ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain a chymryd cyfrifoldeb am eu dyfodol.

Mae ***Cymorth Cynnar*** yn ddibynnol ar asiantaethau'n cydweithio â'r teulu i:

- Nodi plant a theuluoedd a fyddai'n cael budd o gymorth cynnar
- Cynnal asesiad o'r angen am gymorth cynnar

*(Gweler y Llwybr Asesu a Chynllunio Cymorth Cynnar)*

***Peidiwch â byth gwneud dim byd.*** Siaradwch â gweithiwr proffesiynol arall o leiaf i ddod o hyd i'r ffordd ymlaen.

Dylai teuluoedd allu cysylltu ag unrhyw un sy'n gweithio gyda nhw, a fydd yn ymateb ac yn dechrau ***sgyrsiau*** i nodi'r cymorth cywir.

Cardiff
Caerdydd

## Atodiad E: Y Llwybr Asesu a Chynllunio Cymorth Cynnar

**Gweld**

Ymarferydd yn nodi na all anghenion plentyn gael eu diwallu gan y Gwasanaethau Cyffredinol ar eu pen eu hunain.

A yw'r plentyn ***mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol***?

**Ydy:** Atgyfeirio i'r Pwynt Mynediad Plant (PMP) gan ddefnyddio'r Ffurflen Gyfeirio Amlasiantaethol (FfGA).

**NAC YDY:** Cychwyn ***sgyrsiau*** gyda a rhwng

- Gwasanaethau Cyffredinol
- Gwasanaethau a Dargedir
- Gwasanaethau Arbenigol
- Swyddfa NSPCC Caerdydd - can we add their number here? (re concerns related to sexualised

**Asesu**

***Asesiad Cymorth Cynnar:*** Fframwaith Cyd-asesu'r Teulu (**FfCT**) yw Hunanasesiad Cymorth Cynnar dewisol Caerdydd. Mae'n ymyriad yn ei rinwedd ei hun ac yn basbort atgyfeirio i wasanaethau eraill. Gall hefyd gefnogi cyswllt â'r Gwasanaethau (Cymdeithasol) Plant mewn perthynas â ***Phlentyn Mewn Angen*** neu atgyfeiriad ***Diogelwch Plant*** (lle gall y FfCT gael ei gysylltu â Ffurflen Gyfeirio Amlasiantaethol (FfGA) fel rhan o'r atgyfeiriad).

Gall y ***sgyrsiau*** a'r ***Asesiad Cymorth Cynnar (FfCT)*** gael eu dechrau gan unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlentyn a theulu i sicrhau bod y bobl gywir yn ymuno â'r broses yn brydlon i nodi'r hyn sydd ei angen ar y plentyn a'r teulu a sut y dylai gael ei ddarparu. Gall teuluoedd gysylltu ag unrhyw un sy'n gweithio gyda nhw, a fydd yn ymateb ac yn dechrau sgyrsiau i nodi'r cymorth cywir.

Dylai ymarferwyr gynnal sgyrsiau'n ddiogel o fewn ***protocolau rhannu gwybodaeth eu hasiantaeth os oes rhai ar waith***. Dylid recordio sgyrsiau ac asesiadau er mwyn sicrhau bod yr holl fanylion wedi'u nodi, a dylent arwain at nodi camau gweithredu i wella canlyniadau i blant, sydd wedi'u nodi yn y ***Cynllun Teulu***. Os nad oes ***PRhG*** ar gael, bydd sicrhau caniatâd y teulu i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau perthnasol yn galluogi cyfathrebu effeithiol. Cofiwch, dim ond pan fo'r plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol nad oes angen caniatâd i rannu gwybodaeth (h.y. gyda'r Heddlu neu'r Gwasanaethau Plant).

PARHEWCH I GYNNAL SGYRSIAU Â'R TEULU DRWY GYDOL Y BROSES

**Cynllunio**

Dylid cytuno ar y ***Cynllun Teulu*** a'i rannu, a dylai fod yn **B**enodol, **M**esuradwy, **C**ytunedig, **R**ealistig ac o fewn Terfynau Amser (**SMART**), gan nodi cryfderau yn ogystal ag anghenion, a chynnwys plant a'u teuluoedd.

Dylai rhywun weithredu fel y ***Gweithiwr Arweiniol*** - gan arwain ar sicrhau bod y ***Cynllun Teulu*** yn gweithio. Dylai wahodd eraill yn ôl i adolygu'r ***Cynllun Teulu*** yn ôl yr angen (O.N. os yw'r TAT yn rhan o'r gwaith, y Gweithiwr TAT fydd yr ***Arweinydd***. Os yw'r Gwasanaethau Plant yn rhan o'r gwaith, y Gweithiwr Cymdeithasol fydd yr ***Arweinydd***).

**Gwneud ac Adolygu**

***Dylai Sgyrsiau, Asesiadau*** a ***Chynlluniau*** gynnwys penderfyniadau a rennir ac ni ddylai ymarferwyr fod yn gweithio ar eu pen eu hunain.

***Cofiwch: Gweld, Asesu, Cynllunio, Gwneud, Adolygu.***

DYLID CYFLWYNO ATGYFEIRIAD I PMP AR UNRHYW GAM O'R BROSES HON OS OES PRYDERON YN YMWNEUD Â DIOGELWCH

**Atodiad F**
**Egwyddorion sy'n Sail i Ddatblygiad y Cynllun Teulu**

- Mae'n hanfodol nad yw datblygiad y **Cynllun Teulu** yn arwain at ragor o fiwrocratiaeth.

- Er mwyn sicrhau hyn, bydd y **Gweithiwr Arweiniol** yn sicrhau bod y **Cynllun Teulu** yn gweithio i gefnogi unrhyw gynlluniau unigol a allai eisoes fod ar waith ar gyfer y plentyn neu riant.

- Gan ddefnyddio'r rhain a thrwy ymgysylltu â'r teulu, bydd y **Gweithiwr Arweiniol** yn datblygu **Cynllun Teulu** gyda'r teulu drwy gydol y broses ymgysylltu ac asesu gychwynnol, gan ddwyn ynghyd wybodaeth o asesiadau sydd eisoes yn bodoli a gwneud synnwyr o'r rhyngweithio rhwng y ffactorau sy'n effeithio ar unigolion yn y teulu a'u heffaith ar y ffordd y mae'r teulu'n gweithredu. Gan y bydd yr asesiad yn seiliedig ar **egwyddorion adferol**, rhaid i ddatblygiad y **Cynllun Teulu** hefyd fod yn seiliedig ar **egwyddorion adferol**, gan nodi ac adeiladu ar **gryfderau'r teulu**.

- Caiff y **Cynllun Teulu** ei lunio gan ddefnyddio deunydd cyfredol, gan gynnwys hanes achos, asesiadau risgiau ac anghenion a'r canlyniadau a fwriedir (**nodau'r teulu**) fel y cytunwyd arnynt gan y teulu.

- Caiff y **Cynllun Teulu** a **nodau'r teulu** eu rhannu ag ymarferwyr eraill sy'n ymwneud â'r teulu gyda chaniatâd y teulu.

- Mae'r **amcanion** manwl yn y **Cynllun Teulu** yn feincnodau a ddefnyddir i fonitro cynnydd y teulu ac i arsylwi ar ymrwymiad gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r teulu.

- Mae'n bwysig bod y **nodau** yn realistig. Bydd y dadansoddiad, y safbwyntiau a'r penderfyniad a wneir yn yr **asesiad** yn ffurfio sail **Cynllun Teulu**.
  i weithio gyda'r plentyn / person ifanc a'i deulu. Bydd cymhlethdod neu ddifrifoldeb anghenion y plentyn/plant a'r teulu yn pennu cwmpas a manylder y **Cynllun Teulu** a'r amrywiaeth o ymyriadau a/neu wasanaethau eraill sydd eu hangen i alluogi newid o ran gallu rhianta (os yn briodol) ac amgylchiadau'r teulu.

- Rhaid i'r **Cynllun Teulu** nodi sut mae sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r teulu yn cynnig mynd i'r afael â'r amrywiaeth lawn o anghenion y plentyn/person ifanc a'r teulu, gan ystyried **dymuniadau a theimladau** y plentyn/person ifanc a'r teulu.

- Bydd **adolygiadau** o'r Cynllun Teulu yn ystyried ei effeithiolrwydd a dylent gael eu cynnal yn rheolaidd, yn ddelfrydol gan rywun annibynnol neu nad yw'n uniongyrchol gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r teulu.

**Mae cynllunio ac adolygu effeithiol yn seiliedig ar asesiad gofalus a pharhaus o anghenion a risgiau.**

- Mae'r **Cynllun Teulu** yn cynnig golwg holistaidd ar anghenion y plentyn/person ifanc a'r teulu, gan adeiladu ar bob cydran o gynlluniau unigol sydd eisoes yn bodoli, Dylai geisio dwyn ynghyd wasanaethau a fydd yn cyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer y teulu ac aelodau unigol o'r teulu, atgyfnerthu gallu a newid ymddygiad lle bo hynny'n briodol.

- Yn allweddol, bydd y **Cynllun Teulu** yn nodi'n glir yr hyn y gall y teulu ei ddisgwyl gan ymarferwyr a'r hyn a ddisgwylir ganddyn nhw.


Travel back
in time and

CARDIFF
CAERDYDD